YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 40. RHIF 1 MEHEFIN 2018 50c

# Gwefr Oedfa'r Ordeinio yn Lerpwl

*Ar Nos Fawrth, Ebrill 17 yng nghapel Bethel ger Penny Lane bu Oedfa Ordeinio Ms Anna Jane Evans i gyflawn waith y Weinidogaeth. Oedfa bwerus a gofir am byth. Dymuniadau gorau i'r ferch weithgar i waith y winllan.*



*Ordeinio Anna Jane gan y ddau lywydd, Parchedigion Eric Jones ac Olwen Williams*



*Yr arweinwyr a gymerodd ran (o'r chwith i'r dde) Gwyn Roberts, Dolwyddelan; Dr. Nerys Tudor, Penfforddlas, Olwen Williams, Tudweiliog; Anna Jane Evans; Eric Jones, Bangor; Edwin Hughes, Llanbrynmair a Brian H. Jones, Prestatyn*



*Mrs Eleanor a Mrs Dilys Hughes, Ysgrifennydd a Chadeirydd Cyfarfod y Blaenoriaid yn tystio i reoleidd-dra yr Ordeinio*



*Y Capel dan ei sang (gweler Taro Post)*

*Gweler adroddiadau Nan Hughes Parry a David Owens o'r Sasiwn*

## YN Y RHIFYN HWN -

Golygyddol (Yr Angor ar Drothwy ei Ben-blwydd yn 40 oed); Cymdeithasfa'r Gwanwyn, Lerpwl, Ebrill 17-18, 2018; Dosbarthiadau Dysgu Cymraeg; Ysgrif Goffa i Eira Pari Huws; Pobl y Sasiwn.

Golygyddol

# Yr Angor ar Drothwy ei Ben-blwydd yn 40 oed - gan D. Ben Rees

Pwy fyddai'n meddwl ym mis Mai 1979 y byddai'r *Angor* yn dechrau ar ei daith ym mis Mehefin y flwyddyn honno ac yn dal i'w gyhoeddi yn 2018 gyda'r un person wrth y llyw dros y maith flynyddoedd! Perthynai'r *Angor* i'r symudiad pwysig hwnnw a ddigwyddodd yn y saith degau o'r ganrif ddiwethaf sef papurau bro yn ymddangos ar hyd a lled Cymru. Yr unig papur bro y tu allan i Gymru yw'r *Angor,* yn wir y mae hynny yn ffenomenon arall hynod o bwysig a bwysleisir, mae'n siwr, yn y Dathlu a ddigwydd ar Ddydd Sadwrn, 29 Mehefin a Sul, 30 Mehefin 2019. Cadwch y dyddiad yn rhydd, rhowch ef yn eich Dyddiadur.

Yr hyn wna'r papur bro ydyw ysgogi gweithgarwch a chofnodi yr hanes a chynnal hunanhyder y gymdeithas Gymraeg y Cymry, boed adref neu fel ni yn alltudion.

Daeth y newydd trist pan oeddwn yn paratoi y golygyddol hwn am farwolaeth Ron Gilford, Cheadle Hume a Manceinion, gŵr a fu'n fawr ei gyfraniad i'r *Angor* fel Trysorydd, ac aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor Gwaith. Roedd ganddo farn bendant ar y gwahanol bwyntiau a fyddai'n codi a byddai byth yn colli cyfarfod er fod y cyfarfodydd yn cael ei cynnal bob amser yn Ysgoldy Bethel, Penny Lane. Cydymdeimlwn â'i anwyliaid a Chymry Manceinion y bu mor ffyddlon iddynt.

Gwn fod holl ddarllenwyr ein papur bro yn gwerthfawrogi gwerth y misolyn. Cofiaf ddarllen flynyddoedd lawer yn ôl cyfrol pwysig Peter Berresford Ellis, *The Celtic Revolution A Study in Anti-Imperialism*. Craidd ei ddamcaniaeth yw ein bod ni, y Cymry, megis ein cydfrodyr Celtaidd, yn Cernyw a Manaw a'r Alban yn dioddef o'r ysbryd israddol drwy'r oesoedd am i ni gael eich bychanu yn gyson gan 'ddeallusion honedig' y diwylliant Seisnig. A. G. Gill oedd un ohonynt. Yn ddiweddar bu Rob Little wrthi yn y *Sunday Times* yn ein galw yn bob enw dan haul fel y medr. Mae'n rhyfedd fod hwnnw yn cael y rhyddid a gaiff i bardduo unrhyw berson neu gymuned neu genedl. Nid oes pall ar ei ddigofaint a'i ddicter a'i lysnafedd. Y ffordd orau yw ei ateb yn ôl a gwnaeth nifer o'n gwleidyddion hynny. Y mae gan y Cymry ddigon i ymffrostio ynddo ac felly anghofiwn y dolur a ddioddefwyd o leiaf ers *Brad y Llyfrau Gleision*. Dysgwn ar ein cof eiriau'r bardd

*"Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain*
*Daw dydd ni bydd mwy y rhai mawr."*

Diolchwn am yr arlwy a gawn yn *Yr Angor,* yn arbennig y newyddion o'n cymdeithasau Cymraeg a'n capeli. Rydym ni oll, mi gredaf, yn hoffi gwybod hyn a helyntion trigolion o Gymry sydd yn byw yn Sir Gaerhirfryn a Sir Gaer. Ymddiddorwn yn ein cyd-Gymry sydd yn gwarchod y traddodiadau a gerir gennym. Methu a wnawn gyda'n hysbysebion ond y mae cymaint o haelioni yn ein plith, ac y mae Colofn y Trysorydd, Roderick Owen yn mynegi diolch diffuant ein darllenwyr am yr hyn a welir o fis i fis. Y mae yn y rhifyn hwn rywbeth arall i godi ein calonnau sef hanes y dynion a'r merched sydd yn cyfarfod bob nos Lun yn eglwys Bethel i ddysgu'r iaith Gymraeg. Digwydd hynny hefyd yn West Kirby ac yn Cilgwri a dyma nodyn cadarnhaol. Rhan bwysig iawn o'r frwydr dros gadw'r Gymraeg yn iaith fyw i gynifer o bobl ag sy'n bosibl.

Rhaid canmol safon yr erthyglau a ddaw i'm dwylo, ac yn arbennig y lluniau cyfoes, rhan fwyaf ohonynt oddi wrth ein Cadeirydd brwdfrydig Dr. John G. Williamns. Anfonwn ein cofion iddo a'i briod annwyl a fu o dan driniaeth lawfeddygol ar ei glun. Mae Mrs Beryl Williams yn cryfhau a dywedwn wrthi, Brysiwch Wella, gan ei bod hi yn un o bobl y 'pethe' yn ninas Lerpwl. Gwynebwn y sialens o ddathlu pen-blwydd *Yr Angor* gyda hyder. Cydweithrediad a chalonogi ein gilydd i'r dyfodol yw'r angen.

# Gŵyl o Ddiolch am 70 mlynedd o Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS)

## Sadwrn a Sul, 7-8 Gorffennaf 2018

### Bore Sadwrn 7 Gorffennaf

**yng Nghanolfan y Cymry, Auckland Road, Lerpwl**
ceir Sesiwn yn Gymraeg (bydd cyfieithydd ar gael) o 11.30 i 1.15
**10.30-11.15 –** Darlith gyntaf. Aneurin Bevan yn creu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Gorffennaf 1948 gan y Parchedig Athro Dr. D. Ben Rees.
**11.15 i 11.45** – Seibiant i gael lluniaeth ysgafn
**11.45 - 1.15** – Sesiwn o dan ofal Dr. Mari Lloyd Williams, Prifysgol Lerpwl, Dr. Rhys Davies, Ysbytai Gwynedd a Aintree a Dr. John G. Williams yn egluro y newidiadau a gymerodd le mewn meddygaeth o 1948 i 2018.

### Nos Sadwrn am 7.30

**yng Nghapel Eglwys Fethodistaidd, Elm Hall Drive, Lerpwl**
**CYNGERDD – Côr Meibion Prysor, Trawsfynydd**

### Sul, Gorffennaf 8

**Oedfa o Ddiolch am y Gwasanaeth Iechyd** yng Nghapel Bethel, Lerpwl.
*Cennad:* Parchedig Ddr. Goronwy Prys Owen, Bala.
***Trefnir y cyfan gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi***



*Aneurin Bevan*

# Cymdeithasfa'r Gwanwyn, Lerpwl, Ebrill 17-18, 2018

***gan David Owens, Ponciau***

Braint i Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain oedd croesawu Cymdeithasfa'r Gwanwyn i Ddinas Lerpwl. Cyfeillion Bethel Heathfield Road a wnaeth y trefniadau i gyd. Roedd Canolfan LACE, Sefton Park mewn safle hyfryd ac yn ddelfrydol i'r pwrpas. Mawr ddiolch i Dr John Williams, y gweinidog Dr. D. Ben Rees a'r blaenoriaid a chynorthwywyr eraill am eu gwaith caled yn cynllunio a gofalu bod pob peth yn rhedeg yn hwylus. Bu'r gymdeithas yn hyfryd iawn ac yn gwbl gyson â phroffes cwmni o bobl yn arddel yr Arglwydd Iesu. Eto, cafwyd trafodaeth fywiog yn y cyfarfodydd busnes. Bu gwahaniaeth barn ar fater newid trefn ethol blaenoriaid.

Clywsom apêl huawdl gan y Dr. D. Ben Rees o blaid caniatáu i aelodau llesg ac oedrannus, (ond yn dal a dymuniad cryf i fod ynglŷn â bywyd yr eglwys), gael pleidlais trwy'r post pan yn ethol blaenoiaid newydd. Un peth arall a ddaeth i'r brig tro ar ôl tro oedd pwysigrwydd Cynllun Strategaeth cyfredol ym mhob henaduriaeth ac y dylid gofalu bod y defnydd a wneir o'n hadnoddau yn hyrwyddo amcanion a bwriadau'r cynllun. Tynnwyd sylw hefyd at y newid trefniadaeth sydd yn digwydd yn gyflym iawn yn y cyfundeb a bod yn rhaid gofalu bod ein copi o'r Llawlyfr Trefn a Rheolau yn cael ei ddiweddaru yn ofalus pan fo angen hynny.

Yng nghapel Bethel y bu'r ymddiddan ag Anna Jane Evans a'r gwasanaeth ordeinio i ddilyn. Clywsom dystiolaeth hwyliog, diffuant a diymhongar un sydd eisoes wedi dangos ei ffyddlondeb a'i brwdfrydedd yng ngwaith yr Arglwydd. Roedd y capel dan ei sang i'r oedfa ac anerchiad y Parch Eric Jones (gweler *Goleuad* 20fed Ebrill) yn bwrpasol ac yn her i Anna Jane a phawb arall oedd yn bresennol. Trosglwyddwyd y llywyddiaeth i'r Parch. Olwen Williams, Tudweiliog. Diolch i Eric am ei arweiniad hawddgar a phob bendith ar flwyddyn llywyddiaeth Olwen.

Cafwyd eisteddiad hyfryd ar y bore Mercher yn ôl yng nghanolfan LACE. Bu cyfle i gofio am y rhai a gollasom a gwrando ar y sgwrs difyr, doniol ac adeiladol fu rhwng y Parch. Eric Greene a'r Parch. Ddr. D. Ben Rees ynghylch Hanes yr Achos yn yr henaduriaeth. Wedi ein harwain at fwrdd y Cymun gan ein llywydd newydd daeth yn amser lluniaeth a throi am adref.

*'O mor hoff yw cwmni'r brodyr ' (a chwiorydd)*



***Pleidleisio o dan ofal y Parchedig James Clarke, Llanfair PG***



***Y bleidlais ar genadwri o Lerpwl***

***Annwyl Dr Rees***

Braint mawr imi oedd cael bod ym Methel ar Nos Fawrth 17 o Ebrill pan oedd y Capel dan eu sang ar gyfer gwasanaeth ordeinio Anna Jane Evans. Roedd rhai ohonom yn poeni sut fydde na le inni gyd ond dylem fod wedi gwybod yn well, y byddech wedi sicrhau fod na ddigon o le i bawb a oedd eisiau bod yn y gwasanaeth. Roedd yr oedfa yn hyfryd dan arweiniad y Parchedig Eric Jones a'r Parch Olwen Williams yn cynorthwyo a'r canu bendigedig dan arweiniad Margaret Annwyl Williams yn codi ni gyd ar achlysur bythgofiadwy a mor fendithiol.
Roedd pawb o'r ymwelwyr wedi dotio at y cyfleusterau sydd ganddoch ac yn arbennig at y ffenestr hardd.
Diolch hefyd i bawb ym Methel am ddarparu paned i bawb fel fod cyfle i gyfarfod hen ffrindiau a hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai oedd wedi teithio ymhell

Diolch o galon ichi a phawb ym Methel am y croeso cynnes arferol i bawb sydd yn dod drwy'r drws.

*Cofion cynnes iawn*

*Mari Lloyd-Williams*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Wedi ymweliad hapus Alun Pari-Huws, pleser ychwanegol oedd croesawu un arall o blant Ysgol Sul Undebol Penbedw, pan ddaeth yr Athro Hywel Wyn Owen yn ôl i'w gynefin ar nos Lun, 26 Mawrth. Ganwyd a magwyd Hywel yma yn ein tref, lle roedd ei rieni Elfed a Nini Owen yn flaenllaw iawn yng nghapel Salem a holl weithgareddau Cymraeg y Glannau.

Cafodd groeso cynnes gan lawer aelod oedd wedi rhannu dyddiau a gweithgareddau eu hieuenctid. Wedi addysg cynnar aeth Hywel i Brifysgol Lerpwl a dechreuodd ei yrfa yn dysgu Saesneg a Lladin yn ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug – lle roedd ein ysgrifenyddes, Iola yn un o'i ddisgyblion. Mewn amser aeth i ddysgu yn y Coleg Normal a'r Brifysgol ym Mangor. Daeth yn awdurdod ar enwau lleol yng Nghymru a thrwy'r wlad. Bellach mae'n llywydd anrhydeddus *"English Place Names Society"* sy'n cynnwys Iwerddon hefyd. Mae wedi darlledu ac wedi cyhoeddi llawer o lyfrau ar hanes enwau. Dyma yr arbenigwr pennaf ar enwau lleoedd Cymru. Nid syndod felly i ni gael gwrando ar ddarlith feistrolgar, gafaelgar ac eto'n llawn hiwmor a chyfeiriadau lleol a chyfarwydd. Mor hawdd yw gwneud camgymeriadau gwirion wrth drosi enwau Saesneg i Gymraeg neu fel arall. Enghraifft yn Wrecsam lle troswyd Westminster Drive i Rhodfa San Steffan, ond y gwreiddyn yn yr enw yw'r Dug, nid y senedd. Hefyd trosi 'York St' i Stryd Efrog. Y *Yorke* yn yr enw yw teulu Erddig. Rhoddodd yr athro nifer fawr o enghreifftiau felly, rhai chwerthinllyd, rhai trist a rhai hollol ddifeddwl.

Mae'n drueni fod cymaint o fewnfudwyr yn newid enwau Cymraeg ar eu tai, heb wneud ymdrech i ddeall yr ystyr, yr hanes a'r traddodiad sydd ynddynt. Cytunodd pawb â Iola Edwards yn ei diolchiadau i ni gael noson arbennig o ddiddorol ac addysgiadol yng nghwmni cyfaill gwybodus, dysgedig ac hefyd un gartrefol a chyfeillgar. Eirwen oedd llywydd y noson a chyfeiriodd at lwyddiant ein parti o ddysgwyr yn Eisteddfod y Dysgwyr yn Wrecsam yn ddiweddar. Enillwyd y wobr gyntaf am y sgets, a'r ail hefo'r côr yn canu trosiad Gymraeg o ganeuon Tom Jones. Maent yn ffyddlon a gweithgar o'n Cymdeithas ac rydym yn falch o'i llwyddiant a'u hymroddiad. Go dda pob un ohonoch a Neil Jones yr athro diflino.

Cawsom noson o adloniant ar Ebrill 9 gan Nia Morgan a'i disgyblion o'r Bala. Mae Nia yn gerddor proffesiynol a phrofiadol sydd wedi dysgu cerddoriaeth o bob math i blant yr ardal am flynyddoedd mewn ysgolion, capeli a chorau. Mae hi'n hyrwyddo dysgu cerddoriaeth drwy ardal Gwynedd a llwyddiant ym myd cerddoriaeth mewn eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol ac hefyd yn ehangach yng ngholegau Llundain. Daeth Nia a phedwar o'i disgyblion ifanc disglair i'n swyno sef Mabon, Rhys, Cadi a Huw – plant gyda'r potensial i yrru ymlaen ar yrfa gerddorol. Clywsom unawdau, deuawdau, o ganeuon gwerin, clasurol, o sioeau cerdd a cherdd dant. I gloi eu rhaglen cawsom ddatganiad rhagorol fel pedwarawd o 'Benedictus' Robat Arwyn. Iola Edwards oedd llywydd y noson, yn absenoldeb Phyllis O'Neill drwy waeledd. Diolchodd Anne Storey i Nia a'r bobl ifanc am noson hyfryd o bleser pur. Dymunwn pob llwyddiant i'r pedwar yn dyfodol.




***Nia Morgan a'i disgyblion oedd yn y Gymdeithas ar y 9fed Ebrill 2018.***

Daeth tymor arall i ben gyda'n cyfarfod blynyddol ar Ebrill 23ain.

Pleser arbennig oedd gweld Mrs Mair Rees Jones yn ôl yn ei lle fel ein llywydd anrhydeddus am oes wedi ei gwaeledd. Yn ei hadroddiad diolchodd i Iola ac Arwel a'r pwyllgor am eu gwaith drwy'r flwyddyn yn trefnu'r cyfarfodydd. Cawsom dymor hapus da gyda siaradwyr diddorol. Diolchodd yn arbennig i'n cyfeillion o Lerpwl sydd mor barod i ddod drwy'r twnel i fod gyda ni. Yn ei hadroddiad fel ysgrifennydd, amlinellodd Iola y cyfarfodydd arbennig yn ei chof hi – sef yr Athro Hywel Wyn Owen ac Alun Pari Huws sy'n enedigol o'r ardal, a'r Parch Ddr D. Ben Rees, Mr Roderick Owen, a Dr Pat Williams o Lerpwl. Roedd cyfraniad y pump yn gofiadwy. Felly hefyd y cerddorion Robert Parry a Robert Jones a Nia Morgan a'i disgyblion.

Cawsom adroddiad ariannol manwl a thrwyadl gan Mr Arwel Evans, ond pwysleisiodd fod ein cyflwr ariannol yn achosi pryder iddo Dadleuwyd amryw o syniadau i wella'r sefyllfa. Cytunodd pawb fod ein Cymdeithas yn un llwyddianus a chartrefol ac yn haeddu cefnogaeth.

Ail etholwyd y Swyddogion "en bloc" gyda'r Barch Glenys Wilkinson yn ymuno a'r pwyllgor wedi i Mr Tom Thomas ymddeol. Ffarweliwn ag Anne Montgomery oddi ar y pwyllgor a dymunwn symudiad hapus iddi yn ôl i'w chynefin yn Northumbria. Bu Anne yn aelod ffyddlon a brwd o ddosbarth y dysgwyr, a'r Gymdeithas, yn barod iawn i gyfrannu i'n cyfarfodydd, ac i ganu. Mae wedi ychwanegu Cymraeg graenus at ei chasgliad o ieithoedd.

Mawr yw ein dyled fel Cymdeithas i Gwyn am agor a chynhesu'r festri i ni, i Mair a Olwen am baratoi'r gegin, i Terri, Beryl a Gron am gyfeilio ac i Menna am godi swm anrhydeddus drwy'r raffl.

Cofiwch am y Bore Coffi ar Gorffennaf y 7fed. – a mwynhewch yr haf.

## Cymry Manceinion a'r Cyffiniau

***Cyfarfod Gweddi Merched y Byd*** – Oherwydd yr eira, y *'Beast from the East'* gorfu inni ohirio y Cyfarfod Gweddi a ddylai fod wedi cymryd lle ar Fawrth 2ail. Penderfynwyd cynnal y cyfarfod ar brynhawn Sul, Ebrill 8fed yn Noddfa Oaker Avenue. 'Mae Cread Duw yn Dda

Iawn i Gyd' – dyma thema'r gwasanaeth a baratowyd gan chwiorydd Cristnogol Swrinam, gwlad yng ngogledd ddwyrain De America. Dyma wlad hardd gyda choedwigoedd a mynyddoedd gwych, gwlad sy'n gyforiog o flodau ac anifeiliaid.

Cymerwyd y gwahanol rannau gan aelodau o'r ddau gapel a'r teimlad oedd inni dreulio prynhawn diddorol ac addysgiadol yn gwrando ar brofiadau merched Swrinam. Roedd y thema yn ymwneud â delio yn gall efo sbwriel ac ail-gylchu sydd yn amlwg yn bwysig i'r bobl yn y wlad honno ac yn cael sylw yn holl wledydd y byd erbyn hyn. A hynny oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd, a 'global warming' .

Beth cawn ni ei wneud yn ein cartrefi a'n capeli i hybu gofal gwell o'n hadnoddau a'n hamgylchedd? Dyna her y gwasanaeth ac roedd awgrym i bob un ysgrifennu un peth yr oeddem yn mynd i newid yn ein hymddygiad yn y dyfodol yn ein gofal o'r amgylchfyd.

***Cofion cynhesaf*** - Anfonwn ein cofion cynhesaf at yr aelodau sydd yn methu â bod yn bresennol yn ein gwasanaeth ar y Sul. Gwelwn eu colli'n fawr a dymunwn yn dda iddynt. Mae Mrs Lois Murphy wedi setlo yn dda mewn cartref Methodist yn Poynton a Mrs Catherine Pritchard yn dal i fod yn ysbyty Trafford General, ond yn gwella yn araf deg.

***Mr. Ron Gilford –*** Gyda thristwch y derbyniwyd y newydd am farwolaeth Ron yn ysbyty Stepping Hill, Stockport, ddydd Mercher Ebrill 25ain 2018.

Yn enedigol o Dwyran, Ynys Môn, 'roedd yn un o wyth o blant – ei dad yn Sais a'i fam yn ferch o Fôn Mynychai'r teulu eglwys Llangeinwen, ac aml waith y



***Ron Gilford***

dywedodd fel y byddai'n mynd yno deirgwaith ar y Sul – i'r gwasanaeth yn y bore, yr Ysgol Sul yn y prynhawn ac eto i'r gwasanaeth hwyrol – gan gofio fod yr eglwys dros filltir o ffordd o'u cartref. Dyna, yn wir, beth yw ymroddiad.

Cafodd Ron ei addysg gynnar yn ysgol elfennol Dwyran ac yna yn ysgol ramadeg, Beaumaris. Ar ôl gyrfa ddisglair yno daeth yma i Fanceinion i weithio ac i ymgartrefu yn Cheadle, Stockport am weddill ei ddyddiau. Cafodd swydd gyda'r British Gas Board a chyrraedd safle gyfrifol cyn ei ymddeoliad.

Yn y saith-degau hwyr, ymaelododd yng nghapel Oaker Avenue a bu ei gyfraniad i'r Achos yn un teilwng iawn. Bu'n ysgrifennydd y Gymanfa Ganu am lawer blwyddyn, yn drysorydd yr Angor ac yn Llywydd Cymdeithas Cymry Manceinion. Rhoddodd hefyd ei wasanaeth fel pregethwr lleyg yn y gwahanol gapeli yma, yn y ddinas ac ymhellach. Ac ar nodyn ysgafnach, bu'n un o'r actorion yn ein cwmni drama a chawsom oriau o bleser yn ei gwmni. Dyddiau da! 'Roedd graen ar bopeth a wnai ac fe werthfawrogwyd hynny'n fawr gan aelodau'r capeli.

Yn y blynyddoedd diwethaf, dirywiodd ei iechyd yn fawr. Yn ddarllenwr brwd yn y dyddiau a fu,'roedd yr anhwylder ar ei lygaid yn boen mawr iddo. Ond fe gariodd ymlaen a byw bywyd cystal ag y gallai.

Fel y dywedwyd eisoes, "daeth i ben deithio byd" ar Ebrill 25ain. Fe welwn ei golled yn fawr yn y cylch Cymraeg ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w deulu a'i ffrindiau. Côf da amdano.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cynrychiolodd Miss Mair Rees Jones a Mrs Olwen Jones eglwys Seion yn y cyfarfyddiad a gynhelid yng nghapel Bethel, Lerpwl ar bnawn Mercher, 10 Ebrill i gwblhau trefniadau swydd Cynorthwydd Bugeiliol ar y Glannau. Bydd yr ymgeisydd a dderbynia'r swydd yn gweithio o dan ofal mentor y cynllun, Parchedig Dr. D. Ben Rees. Swydd am ddwy flynedd ydyw yn y lle cyntaf gan fod Bethel wedi ei gofnodi yn Strategaeth Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain fel canolfan o'r Eglwys Bresbyteraidd. Y mae ein hadroddiad blynyddol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ac edrychwn ymlaen yn fawr i'w dderbyn i'n dwylo. Cawsom weinidogaeth rymus wedi'r Pasg yng nghwmni y Parchedigion Eleri Edwards, Manceinion; Gerallt Lloyd Evans, Cerrigceinwen, Bodorgan, Môn; Eifion Wyn Williamns, Llanfairfechan ac am y tro cyntaf Hedd ap Emlyn, Ysgogydd Eglwysig Bro Rhuthun a mab i un o weindogion grymus yng Ngogledd Penfro, y diweddar Barchedig Emlyn Jones, Llangloffan.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Gofidiwn am y ddamwain a ddaeth i ran Mrs Beryl Williams, ein gohebydd fel cymdeithas i'r *Angor* a dymunir yn dda iddi ar ôl y driniaeth lawfeddygol. Bellach y mae adref yn ei chynefin ac yn derbyn gofal y meddyg, ei phriod, John, meddyliwn amdanynt. Bu y Cyfarfod Blynyddol yn un llwyddiannus a phawb yn mwynhau y digwyddiad, y wledd a baratowyd (gweler y llun) a'r rhaglen arbennig a gafwyd yn 2017/18. Caiff y cyfarfodydd am 2018/19 eu trefnu yr wythnosau nesaf hyn.



***Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymry Lerpwl (o'r chwith i'r dde) Alun Davies (Trysorydd); Roderick Owen (Llywydd) a Norma Owen (ysgrifennydd)***



***Bwyd wedi cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan***

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Y mae un o'n haelodau, Miss Susan Evans, Crosby yn gwynebu triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Fazarkley ar ddechrau mis Mai a dymunwn adferiad llwyr a buan iddi. Mae yn ffyddlon i'n oedfaon. Edrychwn ymlaen yn fawr i lawnsio cyfrol ar Bethania ar nos Lun, 21 Mai yng Nghanolfan y Cymry, Eglwys Bethel, Heathfield Road am 7.30 o'r gloch. Gwerthodd *Cylch yr Amserau/ Circle of Time* allan. Yr un noson ceir anerchiad gan un o Gymry brwd ein cyfnod Miss Siwan Mair Jones, Rhosllanerchrugog, ac edrychwn ymlaen i hynny hefyd. Croesewir pawb ynghyd i fwynhau y noson arbennig hon, ac i'r rhai sydd heb y gyfrol gyfle i'w phwrcasu. Breuddwyd John P. Lyons yw i Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi ystyried fel project 2019 roddi plac yn adeiladau yr 'hen Fethania' i groniclo beth oedd diben cyntaf yr adeilad, sef cartref ysbrydol Cymry Gogledd Lerpwl. Bwriedir i'r elw a wneir ar y gyfrol fynd tuag at y plac hwnnw.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*"O dan draed roedd blodau'n drwch*
*Cerddem ymysg eu harddwch".*

Dyna brofiad T. Gwyn Jones, y bardd ar ôl ymweld â Phenmon, Ynys Môn. Gobeithio y cawn ninnau yr un profiad gan werthfawrogi a rhyfeddu y tyfiant amryliw sydd o'n cwmpas bob dydd.

Ar y dydd cyntaf o Ebrill a hithau'n Sul y Pasg cawsom wasanaeth amserol ac addas o dan ofal ein gweinidog Dr. D. Ben Rees, a'r sacrament yn dilyn yn cyfannu y cyfan. Braf oedd cael cwmni rhai o blant yr Eglwys oedd ar eu gwyliau ac wedi dod i weld eu teuluoedd. Cydymdeimlwn â Mrs Joyce Lewington a Mrs Delyth Morris ar golli eu chwaer Megan yn Stafford.

Mae Mrs Beryl Williams wedi cael damwain ac wedi torri ei chlun. Derbyniodd driniaeth yn yr Ysbyty Frenhinol ac wedi dod adre. Ein dymuniadau gorau i chwi Beryl am wellhad buan a chymerwch ofal.

Diolch i'r criw a ddaeth i lanhau y Capel fore Iau, Ebrill 12fed a pharatoi yr ystafelloedd erbyn y Sasiwn a fu yn llwyddiant mawr a chawsom lu o lythyron yn diolch am y trefniadau.


***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn*
*07729 960484*


# Cyfarfod Blynyddol y Papurau Bro

Cynrychiolwyd *Yr Angor* yng Nghyfarfod Blynyddol Papurau Bro Cymru gan ein Cadeirydd Dr. John Williams a'i briod Mrs Beryl Williams a hynny yn Llanbadarn, ger Aberystwyth ar ddydd Iau, 29 Mawrth. Daeth cynrychiolwyr y papurau bro ynghyd a da gweld fod *Yr Angor* yn chwifio'r faner ymhlith y papurau bro niferus a welwyd yn y gynhadledd. Ceir adroddiad o'r cyfarfyddiad yn ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf.



***Cynhaeaf y papurau bro***




Annwyl Deulu

***Drannoeth y Sul, (16 Ebrill 2018)***

A'r croeso ym Methel: "Rhyw Sul uwch na'r Suliau oedd," chwedl T. Gwynn Jones yn un o'i gerddi. Mae ymateb addolwyr Bethel yn un i'w ryfeddu ati – yr "hen lestr pridd" fel fi yn ceisio dangos gogoniant Y Trysor. Carwn pe baech mor garedig â dweud hynny o beth wrthynt. Hyn am y tro a cheiswich ymlacio wedi gofynion y Sasiwn.

*Cofion atoch*
*Gerallt a Margaret Lloyd Evans,*
*Llangristiolus*

*Ebrill 20fed, 2018*

*Annwyl Dr. John Willams,*

Pleser yw gyrru gair o werthfawrogiad a ran Swyddogion y Gymdeithasfa i chi, eich Gweinidog, a'r holl dîm a lafuriodd i sicrhau llwyddiant ein cyfarfodydd.

Dyma ddyfynnu o'r adborth a ddaeth i law – "Sasiwn lwyddiannus, cyfforddus a chroesawus…" Gobeithiaf i chithau yn Lerpwl dderbyn bendith o'n hymweliad a dymunwn nerth a gras i'r Achos ym Methel i ddyfalbarhau mewn ffydd a gobaith.

Gyda gwerthfawrogiad a phob dymuniad da.

*Yr eiddoch yn gywir ar ran y Swyddogion,*
*Parch Marcus Robinson,*
*Bethel,*
*Caernarfon*
*Ysgrifennydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd*

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MAI 2018



| | |
|---|---|
| Mrs Mary Evans, Caernarfon | £20.00 |
| Mr a Mrs Arwel Williams, Roby | £25.00 |
| Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws | £15.00 |
| Mr Dafydd Rees, Llundain | £15.00 |
| Mr Hefin Rees QC, Harpenden | £15.00 |
| Parch Dr. a Mrs D. Ben Rees, Lerpwl | £50.00 |
| Mr Alun Owen, Burscough | £21.00 |
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £30.00 |
| Mr Emyr W. Pritchard, Warrington | £30.00 |
| Mrs Alice Jones (Er côf am Hywel), Penbedw | £36.00 |
| Mrs Margaret a Norman Tee, Talybont, Y Bala | £5.00 |

**Cyfanswm £262.00**

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# Sasiwn lwyddiannus yn Lerpwl

## *gan Nan Hughes Parry*

Daeth Sasiwn y Gogledd atom i Lerpwl ar Ebrill 17eg a'r 18fed. Cynhaliwyd hi yng nghanolfan L.A.C.E. ger Parc Sefton. Daeth cynrychiolwyr o Henaduriaethau'r Gogledd a'r Canoldir. Roedd cyfleusterau hwylus dros ben yn y ganolfan a'r cyfan o'r trefniadau o dan ofal medrus Dr. John Williams a'i dîm gweithgar wrth law. Mae ein dyled yn fawr iddo am ysgwyddo cymaint o'r gweithgareddau gyda cyfarwyddiadau manwl i'r gwahoddedigion, rhai ohonynt yn aros yng ngwesty Hallmark, eraill yng ngwesty Penny Lane.

Defosiwn oedd agoriad pob Eisteddiad a diolch i Mrs Margaret Anwyl Williams am ei chyfraniad ar yr allweddell.

Yn yr Eisteddiad cyntaf cafwyd adroddiadau o wahanol bwyllgorau, ac yn yr ail Eisteddiad ar ôl cinio cyfle i ddiolch i Weinidogion a blaenoriaid am eu gwasanaeth maith yn y cyfundeb.

Roedd Te Croeso am bedwar o'r gloch yn rhoddedig gan Weinidog a blaenoriaid Bethel, a siaradwyd gan Mrs Ruth Wynn, Mrs Margaret Jones, Port Talbot, Parchedigion Brian Huw Jones a D. Ben Rees.

Yna i Fethel, i'r Seiat Holi a'r Parch Eleri Edwards yn holi Anna Jane Evans o Gaernarfon am ei phrofiad a'i hawydd i'w hordeinio i'r weinidogaeth. Cymeradwywyd hynny.

Am 7 o'r gloch cyfarfod agored o'r Gwasanaeth Ordeinio, y gynulleidfa yn sefyll a llywyddion y Gymdeithasfa y Parchedigion Eric Jones ac Olwen Williams yn ardoddi dwylo ar Anna Jane gan ei hordeinio i weinidogaeth sanctaidd y Gair a'r Sacramentau. Cyflwynwyd Tystysgrif yr Ordeiniad iddi. Roedd y ganolfan a'r capel dan ei sang, yn deulu a ffrindiau Anna Jane, llond bws o ardal Caernarfon, y cynrychiolwyr ac aelodau Bethel. Diolch am gael bod yno yn dystion, dyma gyfarfod bendithiol a chalonogol yn llawn diolch a llawenydd.



*Parchedig Eric Jones yn llongyfarch blaenor am wasanaeth hir i'r enwad*



*Rhai o aelodau Capel Noddfa lle mae y Parch Anna Jane Evans yn aelod, a hynny ar ddiwedd yr oedfa ordeinio*


Dymunwn fel eglwys rwyddineb iddi yn y gwaith, mae'n ferch hawddgar, alluog a diymhongar.

Ar derfyn y gwasanaeth cyflwynwyd y llywydd newydd, y Parchedig Olwen Williams o Dudweiliog, a diolchwyd i'r cyn-lywydd y Parch Eric Jones, Bangor.

Bore Mercher yn y pumed a'r olaf Eisteddiad cafwyd Hanes yr Achos yn Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain gan ein gweinidog, y Parchedig Dr. D. B. Rees. Cyhoeddwyd llyfryn o'r hanes a cheir ynddo gofnod manwl o hanes yr eglwysi. Mae yna waith dygn yn mynd ymlaen er y lleihad anorfod yn nifer yr aelodau. Diolch am ynysoedd gobaith o hyd a gweithgarwch bywiog gyda phlant a phobl ieuanc mewn canolfannau fel Wrecsam a'r Wyddgrug.

Mae llawer iawn o ymestyn allan a gweithio yn y gymuned a'r ysgolion. Diolch am waith ymroddiedig Mrs Lowri Mitton yn Yr Wyddgrug, galluogwr a swyddog plant, ieuenctid a theuluoedd.

Y Parch Eric Greene, Bala oedd yn holi a thrafod 'Hanes yr Achos' gyda'r awdur. Darllenwch y llyfr 'Hanes yr Achos' mae yn agoriad llygad, yn gofnod o realaeth y sefyllfa heddiw, ac mae awgrymiadau gwerthfawr ynddo. Diolch Dr. Rees am eich holl waith ymchwil, casglu'r ffeithiau a'u dadansoddi. Pwy ond ein gweinidog fyddai wedi ymgymryd â'r dasg enfawr? Gwerthfawrogwn eich gwaith.



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

HENADURIAETH Y GOGLEDD DDWYRAIN



GOLEUNI Y BYWYD

HANES YR ACHOS

gan

y Parchedig Athro Ddr. D. Ben Rees, Lerpwl

Cymdeithasfa'r Gogledd, Lerpwl
Ebrill 17 ac 18, 2018

Yna'n dilyn ac i gloi'r Sasiwn, gwasanaeth o Sacrament o Swper yr Arglwydd o dan ofal y Parchedig Olwen Williams, a gychwynodd ei gyrfa fel athrawes yn Scotland Road! Diolch i Beryl Williams a Rhiannon Liddell am baratoi y bwrdd cymun ac i bedwar o'r blaenoriaid am rannu'r elfennau, ar ôl anerchiad cofiadwy y Parchedig David Owens, Ponciau. Cafodd ei ysbrydoli ar thema maddeuant yr Iesu, a theimlem fod yr Ysbryd Glân yn agos atom.

Cinio blasus cyn ymadael, pawb yn gwasgaru yn hiraethus, a chan obeithio i'r holl gynrychiolwyr dderbyn bendith o'u hymweliad â ni yma fel Sasiwn y Gogledd. Brysied hwy eto atom.

# DOSBARTHIADAU DYSGU CYMRAEG YNG NGHANOLFAN Y CYMRY AC EGLWYS BETHEL


***Liverpool Welsh Language Group***

*If you're curious enough about Welsh to look at Yr Angor, but don't speak the language yet, then our group might be of interest to you. You're welcome to join us and we'll help you to learn Welsh. Write to bethel.learners@btinternet.com for details of what we do. On the other hand, if you do speak Welsh or you have a dictionary and a lot of patience, then you can read about our activities for learners in the following paragraphs.*

Bron bob nos Lun trwy'r flwyddyn mae grŵp o ddysgwyr yn cwrdd yn Lerpwl, ym Methel fel arfer, ond weithiau (ar wyliau'r banc a dros wyliau'r haf) yn y dafarn gerllaw. Mae tuag ugain ohonom ni, ac efallai bydd deg neu dipyn mwy yn dod i'r cyfarfod ar yr un pryd. Mae mwyafrif yr aelodau yn byw yn Ne Lerpwl, ond mae un neu ddau ohonom ni yn dod o bellach i ffwrdd, hyd yn oed mor bell â Newton le Willows.

Grŵp cefnogi ydyn ni, nid dosbarth confensiynol gyda thiwtor. Mae pawb yn helpu'i gilydd nos Lun, wedyn dyn ni'n astudio gartref fel unigolion trwy'r wythnos. Dyn ni'n lwcus gael help gan rai o'r Cymry Cymraeg, hefyd.

Ym Methel dyn ni'n cwrdd mewn dwy ystafell, y naill ar gyfer dechreuwyr, y llall ar gyfer dysgwyr profiadol. Ar ôl awr awn ni i gyd i'r gegin am baned. Yn y dafarn dyn




ni'n cwrdd o gwmpas bwrdd gyda baner (fach!) Cymru, Y Ddraig Goch.

Mae'r is-grwpiau yn gwneud gweithgareddau amrywiol: gwersi anffurfiol, sesiynau sgwrsio, darllen yn uchel a chyfieithu, gemau gyda geiriau, ac ymarferion. Mae'n dibynnu ar bwy sy'n arwain, ac mae'n amrywio o wythnos i wythnos.

Weithiau dyn ni'n ymuno yng nghyfarfodydd Cymdeithas Lenyddol Bethel ar nos Lun yn lle ein dosbarthiadau ein hunan. Unwaith yn y flwyddyn mae'r gymdeithas yn dangos ffilm Gymraeg, ac maen nhw'n defnyddio copi gydag isdeitlau er mwyn ein helpu ni. Unwaith yn y flwyddyn ers 2016 dyn ni wedi trefnu noson o adloniant iddyn nhw, "Noson y Dysgwyr", gyda phawb yn ein grŵp yn cymryd rhan. Mae pobl yn adrodd barddoniaeth, darllen, canu, ymddangos mewn drama fach, ac yn y blaen.

Yn ogystal â'n cyfarfodydd wythnosol dyn ni'n cynnig cyfleoedd i astudio trwy gyrsiau undydd, gyda thiwtoriaid proffesiynol, yng Nghanolfan Iaith Clwyd yn Ninbych. Maen nhw'n digwydd efallai chwe gwaith yn y flwyddyn. Dydy'r cyrsiau 'ma ddim yn ddrud, a dyn ni'n rhannu cludiant hefyd er mwyn cadw'r gost yn isel.

Yn olaf, dyn ni'n cymdeithasu: gyda'n gilydd dros baned a bisgedi rhad, ar ôl ein cyfarfodydd cyffredin, neu gyda Chymry Lerpwl dros baned a bisgedi posh, os oes digwyddiad yn y ganolfan.

Dyna ni, dysgwyr Lerpwl. Dyn ni'n gobeithio bod safon ein Cymraeg wedi gwella oherwydd ein gweithgareddau yn y dosbarth ac yr holl help oddi wrth bobl gefnogol Bethel. Dewch draw unrhyw nos Lun, siaradwch â ni, a ffurfiwch eich barn eich hunain!

**Mike Farnworth.**

***Diolch i Dr. Pat Williams am ei help gyda gramadeg.***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# ARCHIF YR ANGOR
**(Deunydd a welwyd yn Cyfrol 1, Rhif 2, Haf 1979)**

**CLWB Y CYMRY**

## Gweithgarwch yr Haf

Nos Fawrth 12 Mehefin, cynhaliwyd Rali Geir flynyddol. Cychwyn o Bethel, Heathfield Road, rhwng 6.30 a 7.30p.m. Daeth amryw ynghyd a thrafaelio drwy Broadgreen, West Derby, Croxteth, Huyton a Halewood. Cyfarfod ar y diwedd yn 7 Hollytree Road, Woolton, lle roedd lluniaeth ardderchog wedi ei baratoi gan Nan Hughes Parry a'r merched. Diolchwyd yn gynnes iddynt am ddarparu mor helaeth. Enillwyd y ras gan gar o Stanley Road, a'r criw oedd – driver John Davies, co-driver Gwyneth Davies, a'r ardremwyr Beth Williams ac Olwen Morris. Cyflwynwyd gwpan arian i'r buddugwyr gan lywydd y Clwb – Parch D. Hughes Parry. Casglwyd ar y terfyn tuag at y **Family Link Line** a chafwyd swm o £27.

Nos Fawrth, 19 Mehefin, ymwelodd llond bws o'r aelodau â'r **Candle Makers Craft Centre and Granary Kitchen**, Burwardsley, ger Caer. Cawsom arddangosiad pa fodd yr oedd y canhwyllau o bob lliw a llun yn cael eu gwneud i'w gwerthu yno ac mewn llawer siop yn y wlad hon, ac hefyd eu hallforio i wledydd tramor. Yna cafwyd cyfle i brynu rhai o'r amryw gelfi oedd ar werth, cyn eistedd i lawr i bryd o fwyd blasus oedd wedi ei drefnu ar ein cyfer. Diolchwyd i Mr. John Davies am y trefniadau.

Dydd Sadwrn, 23 Mehefin, cafwyd gwibdaith i Efrog. Cawsom ddiwrnod hapus a digon i'w weld yn y ddinas a rhy fuan daeth yr amser i ddychwelyd yn ôl.

Nos Fawrth, 3 Gorffennaf, ymwelodd amryw o'r aelodau â Pharc Croxteth i gerdded o gwmpas a chael sgwrs ac yna cyfarfod yn 116 Eaton Road, lle roedd Mrs Mona Bowen wedi paratoi yn helaeth ar ein cyfer. Wedi gwneud cyfiawnder â'r bwyd danteithiol, gwelsom 'Val' Williams yn chwarae'r delyn. Yna aeth Beth Williams at y piano a phawb yn uno i ganu, ac hefyd cawsom adroddiad gan Mr John Morgan Davies. Diolchwyd i Mr a Mrs Bowen am noson mor ddymunol.

Bydd tymor nesaf y Clwb yn dechrau 11 Medi yn y Central Hall.

Mae gofyn mawr am docynnau i'r Cyngerdd yn y Philharmonic Hall, 15 Medi.

---

### CRONFA 'YR ANGOR'

| | |
|---|---|
| Bethel (MC) Heathfield Road | £25.00 |
| Eglwys (MC) Garston | 10.00 |
| Eglwys Fethodistaidd Central Hall | 5.00 |
| Eglwys Bedyddwyr Earsfield Road | 10.00 |
| Eglwys Bedyddwyr Edge Lane | 5.00 |
| Clwb y Cymry | 25.00 |
| Cymdeithas Gymraeg Wallasey | 10.00 |
| Cymdeithas Gymraeg Birkenhead | 10.00 |
| Mr a Mrs Gwynfryn Evans, Trefebin, Sinclair Drive | 2.00 |
| **Derbyniwyd hyd 1.7.79 y swm o** | **£102.00** |

Gwahoddir unigolion, eglwysi a chymdeithasau i anfon cyfraniadau i'r Gronfa trwy ein Trysorydd T.H. Owens, 12 Honiton Road, Liverpool L17 6BB. Cyhoeddir y rhestr nesaf yn rhifyn Hydref o'r **Angor.**

# *PARATOWYD GAN KEN WILLIAMS*

| | | |
|---|---|---|
| LL | Y | TH |
| O | E | D |
| A | W | R |

## A) GWNEUD GEIRIAU

Gwnewch allan eiriau o'r llythrennau yn y bocs yn cynnwys pedair llythyren a mwy. Mae un gair yn cynnwys y naw: hint fechan "gwladol a lleol". Mae yma o leiaf 40. Y llythrennau i'w defnyddio ond unwaith

---

## B) Enw cyntaf pobl bwysig – ond pwy?

1. Soniwyd am hwn yma o'r blaen, ac rwy'n cofio ei enw! (6)
2. Aeth Ers misoedd bellach, i ymladd y 'gelyn yn Brussels' (6)
3. Ei enw fydd yr unig elfen fyddwn yn cofio amdano (5)
4. Mae hwn yn y Senedd, yn ei le, i'n cymell i uno â'r uchod (4)
5. Mae llawer yn credu, nid oes calon i wneud â hi, a'i siarad annibennol, anherfynol! (6)

Gweler yr atebion ar dudalen 11

*YSGRIF GOFFA I*

# EIRA PARI HUWS

Hunodd Eira Pari Huws ar 13 o Ragfyr yn 88 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni ei dau fab, Alun a Geraint, ar ôl gwaeledd byr.

Mawr yw'r golled i'w theulu; Alun, a'i briod Diane a'u plant David a Sarah; Geraint a'i briod Sian a'u plant Gwenno, Ela a Gwil; hefyd i Geraint Anwyl, cymar ei diweddar ferch, Sian. Roedd gan Eira berthynas arbennig ac agos gyda phob un ohonynt.

Ymunodd dros gant yn y gwasanaeth i ddathlu ei bywyd yn Amlosgfa Bangor, ddeuddydd cyn y Nadolig, ac roedd y teulu yn falch o'u cwmni, ac yn hyderus byddai Eira ei hun wedi ei phleisio gan deyrnged caredig Y Parch. J. Ronald Williams, ac wrth ei bodd gyda'r canu rhagorol.

Ganwyd Eira yng Nghraig-y-Don, Llandudno ym 1929, yn ferch i Edward a Dilys Evans – Dilys yn wreiddiol o Lan Ffestiniog a theulu Edward yn hannu o ardaloedd Harlech a Thrawsfynydd. Cafodd Eira, a'i brawd Glyn, fagwraeth hapus iawn, er iddynt golli eu tad pan oedd Eira'n 11 oed, a mwynhaeai yn fawr ei hymweliadau a'i theulu yng Nghynfal Fawr, Llan Ffestiniog ac yn enwedig a'i chefnder, Peter. Bu'n aelod yng Nghapel Deganwy Avenue, a derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Craig-y-Don ac yna Ysgol Ramadeg John Bright.

Wrth dyfu i fyny, hoffai Eira nofio ar draeth Llandudno, cawsai bleser mawr wrth chwarae tenis, ac yn fwy na dim datblygodd ei doniau cerddorol trwy ymuno â nifer o gorau yn yr ardal, ble cafodd y cyfle i ganu unawdau. Mae'i dawn gerddorol yn amlwg wedi ei throsglwyddo i'w hwyrion a'i hwyresau.

Ym 1947, aeth Eira i'r Coleg Normal, Bangor, gan symud i weithio fel athrawes yn Lerpwl ym 1949 – cyfnod hapus iawn yn ei bywyd. Gan fod ganddi gymeriad agored, bywiog, egniol a chyfeillgar, gwnaeth lu o gyfeillion arbennig yn ystod y cyfnod hwn. Yna, ym 1953, dychwelodd i swydd yn Ysgol Glanwydden ger Bae Penrhyn ac adre at ei Mam. Tra'n canu mewn Cymanfa yng Nghapel Capel Seion, Llanrwst, cyfarfu Eira â Gwyn Pari Huws a oedd adre ar 'leave' o'r môr. Dyma gychwyn ar berthynas hir a chariadus. Priodwyd y ddau ym 1957, gan ymgartrefu yn Hen Golwyn, brin dafliad carreg o'r Brithdir, cartref rhieni Gwyn, Dr Gwilym Pari Huws a'i wraig Sallie. Bu newid byd mawr pan, lai na thri mis wedi'r briodas, y penodwyd Gwyn yn Reolwr Morwrol i gwmni Elder Dempster yn Lagos, Nigeria. Gorfu i Eira, yn wraig ifanc, adael ei chynefin a theithio ar ei phen ei hun, yr holl ffordd o Lerpwl i Nigeria ar long er mwyn ymuno â'i gŵr, ar ddiwedd cyfnod yr Ymerodraeth Brydeinig yn Nigeria. Croesawodd Eira lu o gaptainiaid llong (yn enwedig y Cymru Cymraeg!) a swyddogion amrywiol yn gyson i'r cartref newydd. Ganwyd Alun yn Lagos ym mis Mehefin 1958 cyn i'r teulu bach ddychwelyd i Hen Golwyn. Yna ym 1960, ganwyd Sian yn Ysbyty HM Stanley, Llanelwy. Yn 1961 penodwyd Gwyn yn Marine Superintendent yn Lerpwl, swydd a olygai fod dal angen teithio yn gyson i bob rhan o'r byd, ac fe symudodd y teulu unwaith eto, i Drefebin y tro yma. Ganwyd eu trydydd plentyn, Geraint ym 1965. Cynigodd letygarwch unwaith eto, y tro yma i weinidogion mynych a ddeuai i ymweld â'r ardal – a chael cwmni llawer o gymeriadau amrywiol. Dywedir i'r Parchedig Idwal Jones, Llanrwst gyrraedd yno efo trelar er mwyn gollwng defaid ar ei ffordd i bregethu! Serch ei bywyd llawn a phrysur cafodd Eira ambell gyfle i deithio gyda Gwyn, i Sweden. Dros gyfnod o ugain mlynedd yng Nghilgwri, bu Eira'n cyfrannu'n helaeth i fywyd Cymraeg ardal Glannau Mersi. Bu'n weithgar gyda Chymdeithas Gymraeg Penbedw, gan drefnu, ac arwain, nosweithiau adloniant niferus. Bu'n aelod ffyddlon o Gapel Clifton Road, yn athrawes Ysgol Sul ac yn



organydd. Hefyd roedd ar bwyllgor cyntaf *Yr Angor*, ac yn ddarllenydd brwd ohonno tan y diwedd. Derbyniwyd Eira i'r Orsedd yn Eisteddfod Wrecsam yn 1978 fel cydnabyddiaeth o'i gwaith diflino gyda'r Gymdeithas Gymraeg.

Dros y cyfnod hwn bu'r teulu yn mynd ar wyliau haf i Gemaes, Sir Fôn, a chael croeso mawr gan y trigolion lleol. Yno hefyd roedd hen ffrindiau Penbedw, Capt Llew Jones a'i wraig Lizzie Ann a Wyn a Megan Jones i'w gweld ar wyliau yn yr ardal a'r plant yn aml yn mynd i bysgota gyda 'Capten Llew'.

Yn ddiweddarach, wedi i'r plant dyfu, gweithiodd Eira am gyfnod fel tiwtor yn dysgu plant oedd yn methu mynychu'r ysgol a bu hefyd yn dysgu Cymraeg i rai o swyddogion cwmni Shell, cyn iddynt sumud i waith newydd Shell yn Rhosgoch, Sir Fôn.

Yn 1982, bellach yn Nain a Thaid balch, wedi dau ddegawd hapus iawn yng Nghilgwri, ymddeolodd Gwyn yn gynnar o'i swydd fel Cyfarwyddwr yn Ocean Fleets, ac ymgartrefodd y ddau yng Nghaernarfon, a'u cartref, Carreg y Garth, yn edrych dros y Fenai ar Sir Fôn. Cynigodd hyn gyfle i ddatblygu eu cariad mawr at y môr ymhellach, gan hwylio ar eu cwch 'Glaslyn' o gwmpas y Fenai, yn ogystal â Sir Fôn, Pen Llyn, Enlli a chrwydro i lawr cyn belled ac Aberteifi.

Yn Nghaernarfon, buan iawn y daeth Gwyn ac Eira yn aelodau gweithgar o'r gymdeithas leol, y ddau yn ymddiddori a chyfrannu at nifer o fudiadau gwahanol. Bu'r ddau yn aelodau o Gapel Salem, ble bu Eira unwaith eto yn canu'r organ. Ymunodd Eira hefyd â sawl cymdeithas, yn eu mysg Merched y Wawr, RNLI, Cylch Gwnio a'r Cylch Llên. Gyda llai o gyfrifoldebau teuluol, cafodd y ddau gyfle i fwynhau eu hamdden ac ymweld a nifer o wledydd ar wyliau.

Wedi marwolaeth Gwyn yn 2003, parhaodd Eira i fod yn weithgar a phrysur ac i ymfalchio yn natblygiad ei hwyrion a'i hwyresau. Yn 2011, symudodd i Glyn Garth, ger Porthaethwy ac ymunodd â Chapel y Tabernacl, ble y derbyniodd groeso cynnes. Unwaith eto roedd ei chartref newydd yn edrych dros y Fenai, ond y tro hwn o'r ochr arall. Gyda golygfeydd rhyfeddol mynyddoedd Eryri yn gefndir, cynigiai'r olygfa y tro yma rhyw olwg yn ôl ar sawl pennod o'i bywyd - o Landudno ble'i magwyd, ac hefyd yn gartref bellach i'w mab Alun a'i deulu; o'i hystafell yn neuaddau y Coleg Normal; y Fenai ei hun, ble yr hyfforddodd Gwyn ar fwrdd HMS Conway ac yn bwysicach, ble y mwynhaeodd hi a Gwyn gymaint wrth hwylio ar y 'Glaslyn'. Darparodd y golygfeydd anhygoel destun sgwrs cyson, wrth i rhyfeddod tywydd a llanw sicrhau bod pob dydd yn cynnig rhyw wedd newydd ar y tirlun hudolus.

Yn 2015, roedd colli ei merch Sian yn ergyd enfawr i Eira, ni ddylai Mam byth orfod ffarwelio a'i merch, ond serch y galar, roedd ei chadernid a'i nerth rhyfeddol yn gynhaliaeth i'r teulu i gyd. Mae'n siwr ei bod wedi ysgwyd llaw a phob un o'r cannoedd a ddaeth i ddathlu bywyd Sian yn Nghapel Moreia, Llangefni.

Yn 2016, bellach yn 86 mlwydd oed, ymunodd gydag Alun a David ar y 'Glaslyn' am fordaith byr o Biwmares i Gaernarfon a hwylio hebio ei chartref newydd am y tro cyntaf.

Serch colli Gwyn a Sian, chollodd Eira ddim o'i hysbryd a'i gallu i fwynhau bywyd –fe'i gwelwyd yn ddiweddar yn dawnsio gyda ei wyres, i un o ganeuon y Beatles. Parhaodd yn chwim ei meddwl, yn annibynnol iawn ac yn fawr ei diddordeb yn holl weithgaregau ei theulu. Credai fod yr hyn a ddeuai i'w rhan i fod, er gwell neu er gwaeth, ac er iddi osod disgwyliadau a safonau uchel iawn iddi hi ei hun, roedd yn rhyfeddol o ryddfrydol, yn falch o'i Chymreictod ac yn barod hyd y diwedd i estyn yr un croeso arferol i'w chartref. Yn ystod ei hoes brysur, amrywiol a hapus, manteisiodd ar bob cyfle i gyfrannu at y gymdeithas, ble bynnag y bo.

*Myfyrdod*

# PEDR

Mewn siop llyfrau ail-law fe ddigwyddais glywed dau stiwdent yn siarad wrth drafod ryw lyfr ac fe ddywedodd un "Wel, beth wyt yn feddwl o Pedr Sant, nawr?" Dwn i ddim beth aeth ymlaen wedyn oherwydd fe cipiodd y cof fy meddwl yn ôl at hen ddarlithydd R.L. a beth fuasai'n ddweud –

"Yesssss, that is a good question – would anyone care to answer it!?" Beth bynnag i chi, pan es adre dyma'r cwestiwn yn dod yn ôl. Beth am Sant Pedr.

Dowch yn ôl â mi i'r adeg syfrdanol pan chwalwyd yn yfflon gobeithion y fintai fach o gredinwyr – tybed sut oeddynt yn teimlo? ADGYFODIAD – GRÊT – ond beth nawr? Medraf ddychmygu Pedr, mewn penbleth, ac yn dweud wrtho'i hun "Mi af fi yn ôl i fy nghynefin i bysgota."

Dyna oedd ei gariad cyntaf ynte? Cofiaf Alf, Caeau Gwynion, yn sôn fel roedd yn nefoedd yn pysgota – yr enaid mewn cytgord â Natur, yn mwynhau nodau melodaidd y dŵr, y môr, y distawrwydd ac wrth gwrs yr hyfrydwch o frwydro gyda'r pysgodyn. Cofiwch, ni fedraf feddwl am funud fod Pedr wedi colli ffydd ond ei fod yn cilio am fan "to recharge the batteries" man tawelwch. Roedd, wedi'r cyfan lawer i feddwl amdano onid oedd? Dyma'r mintai fach i gyd yn penderfynu mynd yn ôl at eu gwaith cyntaf – pysgota.

Yn ôl yr hanes, yn y bore, fe ymddangosodd Iesu Grist Ei Hun iddynt ac yn wir roedd "picnic" ar y traeth iddynt a pawb yn dweud wrth Pedr mai yr Iesu oedd. Ac fe sylweddololdd Pedr pan welodd yr holl bysgod ac nad oedd y rhwyd wedi torri bod pethau'n wir ac mai yr Iesu oedd. Yn wir, roedd pethau yr un fath a'r tro cyntaf ddigwyddodd y bu'r ddau gyfarfod. Credaf yn gydwybodol, bod Pedr wedi gweld yn yr adeg yma gyfle i deimlo "heddwch cydwybod". Wrth iddo fynd yn ôl i'w hen gynefin roedd euogrwydd dychrynllyd oedd arno wrth iddo feddwl am y gorffennol. Fel bod yn fethiant llwyr i'w gyd-ddysgyblion. Heb gefnogi ei Waredwr pan oedd yn Ei awr o fod mewn angen. Fe welodd Pedr yn y fan yma ar fôr Tiberias ac fe syrthiodd ar ei fai a phan ofynnodd yr Iesu iddo "Simon Pedr, a wyt ti'n fy ngharu I"? Atebodd Pedr heb flewyn ar ei dafod "YDWYF". Dydy'r Iesu ddim yn gweld Pedr yn fethiant. Rhoddodd waith iddo: "Portha fy nefaid" ac yna yn y gorchymyn fe geir heddwch a phwrpas y bywyd gwell.

Un fel yna ydych eich Duw chi a fi. Mae'n wastadol yn rhoddi inni yr ail gyfle onid yw? Byddaf yn meddwl bob munud awr Ei fod yn CREDU ynom ac yn dod ag heddwch i'n cydwybod. Yn fy stydi fach yn Caerffili, os teimlaf yn unig mae gen i heddwch a thangnefedd yma – os oes problem gennych cymerwch amser i chwilio am fan tawel, does ots ble mae, efallai yn y diwedd yn y gadair freichiau wrth y tân Cofiwch nid dihangfa ydyw, mae'n lle i ddisgwyl i gwrdd ag EF. Wyddoch chi, ar ddiwedd y dydd mae yna gymaint nad ydym yn ei ddeall ond mae Ef yn gwybod y cyfan ac mi wnaeth Ef synwyr o bethau inni. Cofiaf y Parch Cynwil Williams yn dweud wrthyf un tro "Cofia, does dim rydym wedi'i wneud yn anfaddeuol a does neb yn FETHIANT yn Ei lygaid Ef". Yn sicr, gyfaill annwyl, mae Pedr yn gwarantu hyn a phob Pedr arall.

***ELWYN PARRY***


Cysylltwch â'r

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**dbenrees@gmail.com**


## ATEBION Y CWIS

**A. Gwneud geiriau:** LLYWODRAETH. Allor, athro, athrod, awyr, awyro, ewyrth ewythr, erwyd, daeth, deall, derw, dewr, draw, dryll, doeth, dyro, dryw, llaeth, llaethdy, llaethwr, llathr, llawd, llawr, llawer, lledr, llewod, lledwyr, lledwyro, llethr, llew, lledw, llodwyr, lloer, llwyd, llwydo, llwyth, llywaeth, llyweth, oedwr, wado, wrtho.

**B. Pwy ydynt?**

**Arweinwyr Cyfoes.**

1. **Ac rwy'n – Carwyn Jones**
2. **Aeth ers - Theresa May**
3. **Unig elfen - Nigel Farage**
4. **Le, i'n – Neil Hamilton**
5. **Calon i - Nicola Sturgeon**


Dros y 18 mis diwethaf mae

***Corau Cymru***

wedi cyhoeddi 4 CD yn y gyfres

**HOFF EMYNAU**

yr un diweddaraf gan Gôr CF1, Caerdydd.

Mae pob CD yn cynnwys i fyny at 15 o emynau poblogaidd wedi eu recordio gan gorau adnabyddus.

Ar gael yn awr am £12 ynghyd â llyfryn sy'n cynnwys y geiriau a'r tonau oddi wrth

***www.coraucymru.com***


### *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin 2018 ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Gorffennaf 2018 –** erbyn bore Gwener, 1 Mehefin 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Awst/Medi 2018** erbyn bore Sul, 1 Gorffennaf, 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

**iii) Rhifyn Hydref 2018 –** erbyn bore Sul, 2 Medi, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11 o'r gloch ar ddydd Llun, 3 Medi, 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# Pobl y Sasiwn ar 17/18 Ebrill 2018



Y Tîm Croeso o Bethel



Ruth Wynn (Moreton), Llywydd
Henaduriaeth y Dwyrain



"Mae 'na un yn wastad …"




Y llywydd yn llongyfarch Parch Tudur Rowlands (Rhewl)
am wasanaethu am 50 mlynedd fel gweinidog



Parch Eric Greene a'r awdur yn
trafod Hanes yr Achos



Gwarchodwyr y stondin lyfrau